Dolen LESOTHO CYMRU

Taith

Meddwl am y Dyfodol -

Dysgu drwy gysylltiadau rhyngwladol ymhen 40 a 200 mlynedd

Mwy o Debygrwydd na Gwahaniaethau (Blwyddyn 4-6)

Tabl Cynnwys

Cyflwyniad	03
Ein cefndir	04-05
Diben yr Adnodd	06-07
Sut i ddefnyddio'r adnodd hwn	08
Disgrifiad o'r gweithgareddau	09
Cynlluniau Gwersi	10-17
Adnoddau	18-25
Dolenni Pellach	27

Cydnabyddiaethau
Wedi'iddatblygumewn partneriaeth â Taith, Llywodraeth Cymru a Dolen Cymru Lesotho, mae'radnodd hwnwedi'i seilioar leisiau a phrofiadaubywyd cymunedau, addysgwyr, a phobl ifancyng Nghymru a Lesotho.

© Taith a Dolen Cymru Lestho | Caniateir defnydd addysgol gyda chydnabyddiaeth

Croeso i

Meddwl am y Dyfodol

Adnoddau Mwy o Debygrwydd na Gwahaniaethau

Mae'r adnodd hwn yn helpu myfyrwyr i ystyried y thema **Mwy o Debygrwydd na Gwahaniaethau** drwy hunaniaeth, perthyn (cynefin), tegwch a gwerthoedd.

Mae'n meithrin hyder o ran deall sut mae cymunedau yn gwneud penderfyniadau a sut mae'r syniad o berthyn yn cael ei fynegi yng Nghymru a Lesotho.

Ein Cefndir

Dolen Cymru yw cyswllt cyfeillgarwch rhyngwladol mwyaf hirsefydlog Cymru. Ers 1985, mae Dolen Cymru wedi datblygu perthnasoedd rhwng Cymru a Lesotho drwy brosiectau addysg, diwylliant, iaith, iechyd a chymuned.

Fel mae'r enw yn ei awgrymu, mae cysylltiad wrth galon popeth a wnânt.

Ers dros ddeugain mlynedd, mae Dolen Cymru wedi:

- helpuathrawon Cymreig a Basotho i ddysgu gan ei gilydd
- cefnogi partneriaethau ysgol a chyfnewidiadau dosbarth
- datblygu adnoddau sy'n dathlu gwerthoedd a hanesion cyffredin
- creu cyfleoedd i bobl ifanc fagu hyder a datblygu ymwybyddiaeth o'r byd
- cryfhau cysylltiadau cymunedol drwy gyfeillgarwch, parch a thegwch.

Meddwl am y Dyfodol

Pam Cymru ↔ Lesotho?

Er bod Cymru a Lesotho yn lleoedd gwahanol iawn, mae llawer o debygrwydd:

- hunaniaeth ddiwylliannol gryf
- ieithoedd a thraddodiadau cyfoethog
- ymdeimlad dwfn o gymuned a pherthyn
- hanes o wydnwch ac undod
- brwdfrydedd am gerddoriaeth, adrodd straeon a'r dirwedd

Mae gwaith Dolen Cymru yn dod â'r elfennau cyffredin hyn ynghyd fel y gall plant ddysgu:

"Mae ein hunaniaeth yn cael ei siapio gan y lleoedd yr ydym yn perthyn iddynt, y straeon yr ydym yn eu rhannu, a'r gwerthoedd sy'n llywio ein ffordd o fyw."

Ein nod mewnaddysg

Mae Dolen Cymru yn cefnogi athrawon drwy ddarparu adnoddau ymarferol sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm sy'n:

- ✓ **dathlu hunaniaeth, iaith a diwylliant**
- ✓ **hyrwyddo tegwch, parch a chynhwysiant**
- ✓ **helpu plant i wneud cysylltiadau rhwng Cymru a Lesotho**
- ✓ **meithrin hyder a chwilfrydedd**
- ✓ **annog dinasyddiaeth fyd-eang a dealltwriaeth o wrth-hiliaeth**

Mae'r adnodd hwn yn rhan o'r weledigaeth gyffredin honno.

Diben yr Adnodd

Mae’radnodd hwn yn canolbwyntio ar y thema **Mwy o Debygrwydd na Gwahaniaethau**, wrth ystyried hunaniaeth, perthyn (cynefin), tegwch, a gwerthoedd cymunedol. Fe'i cynlluniwyd drwy lens gwrth-hiliol ac mae'n cynnwys cymhwysedd digidol ystyrlon drwy gydweithio ag ysgol bartner yn Lesoth
o.
Mae’r gweithgareddau yn cefnogi meysydd allweddol Cwricwlwm Cymru ar draws y Dyniaethau, leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Celfyddydau Mynegiadol a’r Fframwaith Cymhwysedd Digidol, helpu disgyblion i ddeall y gorffennol wrth fyfyrio ar bwy ydynt heddiw.

Gwerthoedd Craidd

Cysylltiad Diwylliannol

Mae’r adnodd hwn yn gwella dealltwriaeth disgyblion o’u hunaniaeth eu hunain wrth ddatblygu cysylltiadau ystyrlon rhwng Cymru a Lesotho. Mae’n hyrwyddo chwilfrydedd, parch a balchder mewn treftadaeth ddiwylliannol.

Cymuned

Mae’r gweithgareddau yn annog tegwch, empathi a gwneud penderfyniadau ar sail gwerthoedd. Mae disgyblion yn dysgu am sut mae cymunedau yn y gorffennol a'r presennol yn gweithio i gadw pobl yn ddiogel, eu cynnwys a'u trin â pharch.

Diben yr Adnodd

Pryd i ddefnyddio Padlet

Mae Padlet a rennir rhwng eich ysgol a'ch dosbarth partner yn Lesotho.

Sganiwch y cod QR isod i gael mynediad at y Padlet a gwneud postiad yn y golofn gywir.

Gall athrawon arddangos postiadau'r ysgol bartneri'r dosbarthfel y gall disgyblion rannu syniadau, cyfnewid ffyrdd o feddwl a dysgu gan ei gilydd.

Gallwch ddefnyddio Padlet i rannu myfyrdodau'ch myfyrwyr.

Padlet

Beth i'w uwchlwytho

Cylch Croeso, Gweithgaredd 4, arwydd ymwelydd a chylch

Dylai disgyblion rannu syniadau ynghylch sut gallai bywyd fod yn decach neu'n well yng Nghymru neu Lesotho yn y dyfodol.

Sut i ddefnyddio’r adnoddau

Sut i Ddefnyddio’rPecynHwn

Gellir cyflwyno’r pecyn hwn fel dilyniant llawn o wersi, fel sesiynau unigol, neu ochr yn ochr â thestunau ategol.


Resource 5

Role Play Cards

Print the flashcards and pupils hold up A or B to show which option they think is fairest.

A

B

30

Mae pob pwnc yn cynnwys:

- Amcan ddysgu clir
- Canllaw addysgu cam wrth gam
- Syniadau gwahaniaethu a dilyniant
- Adnoddau gweithgareddau disgyblion
- Tasg i fyfyrio neu i gloi

Gall athrawon ddilyn y drefn a awgrymir neu ddewis gweithgareddau i gyd-fynd â ffocws y cwricwlwm a’r amser sydd ar gael.


Resource 7

Independence

Design an item of clothing that represents identity and belonging.

32

Mae codau QR yn y pecyn hwn yn darparu mynediad ar unwaith at y deunyddiau sydd eu hangen arnoch i gyflwyno pob gwers yn hyderus.

Testunau Ategol

Cyflwyniad

Darperir testunau ategol i athrawon allu cyfeirio atynt i wella’u gwybodaeth ynghylch pwnc ac nid ydynt wedi'u bwriadu i'w defnyddio'n uniongyrchol gan ddisgyblion.

Crynodeb o weithgareddau

Mae ein rhaglen yn cynnwys

Mae disgyblion yn dysgu am hunaniaeth, perthyn a thegwch drwy drafod lleoedd, ieithoedd a dewisiadau sydd o bwys iddynt. Maent yn cymharu sut mae twristiaeth, annibyniaeth ac iaith yn siapio llais a gwneud penderfyniadau yng Nghymru a Lesotho, gan ddefnyddio dadleuon, senarios a thasgau creadigol i archwilio barn pwy sy'n cael ei glywed a beth sy'n gwneud penderfyniadau yn rai teg.



Iaith

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Archwilio sut mae iaith yn helpu pobl i ddangos hunaniaeth, perthyn a thegwch yng Nghymru a Lesotho, a sut mae cyfathrebu'n cefnogi penderfyniadau teg mewn cymunedau.

Cyd-destun

Mae iaith yn dangos hunaniaeth, perthyn, a diwylliant. Yng Nghymru a Lesotho, mae ieithoedd yn adlewyrchu gwybodaeth gymunedol a gwerthoedd cyffredin. Mae gan bob iaith urddas cyfartal ac maent yn haeddu parch.

Dechrau Arni

"Pa eiriau neu ieithoedd sy'n gwneud i chi deimlo fel chi'ch hun?" Mae disgyblion yn adrodd un esiampl yn uchel (e.e. iaith y cartref, llysenw, geiriau gweddi, slang, geiriau Cymraeg, ymadroddion teulu).

- Blwyddyn 4: Enwch un gair neu iaith sydd o bwys i chi.

Dilyniant

- Blwyddyn 5: Lluniwch ac ysgrifennwch un frawddeg: "Mae'r gair hwn/yr iaith hon yn bwysig i mi oherwydd..."
- Blwyddyn 6: Ysgrifennwch esboniad byr sy'n cysylltu iaith â hunaniaeth neu berthyn.

Gweithgaredd 1

Tasg:
Dywedwch wrth y disgyblion: "Am un munud, allwch chi ddim siarad." Rhowch gyfarwyddyd syml drwy arwydd yn unig (eisteddwch / sefwch / gwnewch res).

- Oedd hi'n dasg hawdd neu'n anodd?
- Pwy oedd yn teimlo'n hyderus?
- Pwy oedd yn teimlo eu bod wedi cael eu gadael allan?

Gweithgaredd 2

Gan ddefnyddio'r cyflwyniad hwn, bydd yr athro yn esbonio sut mae iaith yn gwneud i bobl deimlo'n ddiogel, mynegi eu hunaniaeth, a theimlo eu bod yn perthyn mewn cymunedau yng Nghymru a Lesotho.

Gweithgaredd 3

Darllenwch bob sefyllfa a dewiswch yr opsiwn fwyaf teg: A neu B. Gall disgyblion ddal cerdyn A neu B i fyny i ddangos eu dewis." (B4)

Dilyniant

- B5: Dewiswch A neu B + ysgrifennwch/dywedwch 1 rheswm
- B6: Dewiswch A neu B + rhowch reswm a chysylltwch â gwerth (tegwch, caredigrwydd, diogelwch, cymuned))

Pob blwyddyn: Adnodd 1, tud. 18-19



Iaith

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Archwilio sut mae iaith yn helpu pobl i ddangos hunaniaeth, perthyn a thegwch yng Nghymru a Lesotho, a sut mae cyfathrebu'n cefnogi penderfyniadau teg mewn cymunedau.

Cyd-destun

Mae iaith yn dangos hunaniaeth, perthyn, a diwylliant. Yng Nghymru a Lesotho, mae ieithoedd yn adlewyrchu gwybodaeth gymunedol a gwerthoedd cyffredin. Mae gan bob iaith urddas cyfartal ac maent yn haeddu parch.

Gweithgaredd 4

Dyluniwch gylch croeso yn dangos sut mae pobl yn dweud helo mewn gwahanol ieithoedd yn eich dosbarth neu gymuned. Beth maen nhw'n ei ddylunio: Cylch neu gwmwl ar gyfer y dosbarth cyfan, mae pob disgybl yn ychwanegu un gair (e.e. hello / salaam / shwmae / bonjour) a gellir ysgrifennu neu wneud llun o eiriau

Dilyniant

- B4: Ysgrifennwch neu copiwch un gair
- B5: Ychwanegwch pwy sy'n defnyddio'r iaith (yn y cartref, ysgol, cymuned)
- B6: Ychwanegwch un frawddeg:
- "Mae gweld fy iaith yma yn fy helpu i deimlo fy mod i'n cael fy nghynnwys oherwydd..." **Adnodd 4, tud. 21**

Cyfarfod Llawn Bach Meddwl am y Dyfodol

Ysgogiad:
"Sut allwn ni sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu parchu oherwydd yr iaith maen nhw'n ei defnyddio?"

Dilyniant

- Blwyddyn 4: Rhannwch un syniad.
- Blwyddyn 5: Esboniwch sut mae'r syniad yn helpu pobl i deimlo ymdeimlad o berthyn.
- Blwyddyn 6: Cysylltwch y syniad o ddysgu am Gymru neu Lesotho.

Cerdyn Gadael

Mae disgyblion yn ei ddweud yn uchel:

- Blwyddyn 4: "Un ffordd y gallwn fod yn garedig am iaith yw..."
- Blwyddyn 5: "Mae iaith yn helpu pobl deimlo fel eu bod yn perthyn oherwydd..."
- Blwyddyn 6 :"Mae parchu gwahanol ieithoedd yn helpu cymunedau oherwydd..."

Padlet

Padlet ar y cyd rhwng eich ysgol a dosbarth partner yn Lesotho. Defnyddiwch y DDOLEN i gael mynediad i'n padlet ac uwchlwytho lluniadau gyda neu heb gapsiwn byr neu fyfyrdod uwchlwytho neu nodyn llais.

Gall athrawon ddangos Padlet yr ysgol bartneri'r dosbarth, gan alluog idisgyblion i gyfnewid gwaith, rhannu syniadau a dysgu gan ei gilydd.

Annibyniaeth

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Deall ystyr annibyniaeth a pham ei fod yn bwysig i bobl a gwledydd.

Cyd-destun

Mae annibyniaeth yn golygu cael lleisio barn, cael eich cynnwys, a chael gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi.

Dechrau Arni

Tasg:
Mae disgyblion yn meddwl am un dewis sy'n bwysig:

- iddyn nhw
- i'w teulu neu i'w cymuned
- neu i wlad

Mae disgyblion yn ei adrodd yn uchel neu'n ysgrifennu un gair neu ymadrodd byr.

Gweithgaredd 1

Gan ddefnyddio'r cyflwyniad, bydd yr athro yn esbonio sut mae annibyniaeth yn gwneud i bobl deimlo'n ddiogel, mynegi eu hunaniaeth, a theimlo eu bod yn perthyn mewn cymunedau yng Nghymru a Lesotho.

Gweithgaredd 2:

Tasg:
Mae'r athro yn darllen datganiadau'n uchel. Mae disgyblion yn penderfynu: Annibynnol neu ddim yn annibynnol eto? Mae disgyblion yn ymateb gydag annibynnol neu dim eto.

Dilyniant

- B4: Dewiswch Annibynnol / Ddim yn Annibynnol
- B5: Dweud un rheswm pawb
- B6: Cysylltu Cymru neu Lesotho

Adnoddau 3, td. 20.

Gweithgaredd 3: Chwarae rôl/ Senario

Darllenwch bob sefyllfa a dewiswch yr opsiwn fwyaf teg: A neu B. Gall disgyblion ddal cerdyn A neu B i fyny i ddangos eu dewis. Dewiswch A neu B **(b4)**

Dilyniant

- B5: Dewiswch A neu B + ysgrifennwch/dywedwch 1 rheswm
- B6: Dewiswch A neu B + rhowch reswm + cysylltu â gwerth (tegwch, caredigrwydd, diogelwch, cymuned).

Adnodd 1 tud 18 a Adnodd 5, tud. 22

Annibyniaeth

Syniadau Addysgu

AmcanDysgu:

Deall ystyr annibyniaeth a pham ei fod yn bwysig i bobl a gwledydd.

Cyd-destun

Mae annibyniaeth yn golygu cael lleisio barn, cael eich cynnwys, a chael gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi.

Gweithgaredd 4

Rhowch gylch wedi'i rannu'n dri rhan i'r disgyblion.
Eglurwch: "Mae'r cylch hwn yn dangos sut mae annibyniaeth yn edrych mewn bywyd go iawn."

Ym mhob adran, mae disgyblion yn gwneud llun neu'n:

- ychwanegu gair/symbol i ddangos:
- Penderfyniadau y gallaf eu gwneud (penderfyniadau)
- Pobl sy'n gwrando arnaf (llais)

Dilyniant

- B4: Tynnwch lun un syniad ym mhob adran
- B5: Tynnu llun + labelwch (e.e. "Dw i'n dewis..." / "Maent yn gwrando pan...")
- B6: Ychwanegwch un frawddeg:
- "Mae hyn yn dangos annibyniaeth oherwydd..."

Adnodd 6, tud 23.

Cyfarfod Llawn Bach Meddwl am y Dyfodol

Ysgogiad:
"Beth fyddai'n helpu mwy o bobl deimlo fel eu bod yn cael eu cynnwys yn y dyfodol?"

- B4: Rhannwch un syniad
- B5: Rhannwch un syniad a pham ei fod yn helpu
- B6: Cysylltwch y syniad gyda thegwch, gwrando, neu hawliau

Cerdyn Gadael

Disgyblion yn cwblhau un (Un frawddeg yn unig):

- Un peth sy'n helpu i bobl deimlo eu bod yn cael eu cynnwys yw..."
- "Yn y dyfodol, dylen ni..."

Padlet

Padlet ar y cyd rhwng eich ysgol a dosbarth partner yn Lesotho. Defnyddiwch y **DDOLEN** i gael mynediad i'n padlet ac uwchlwytho lluniadau gyda neu heb gapsiwn byr neu fyfyrdod uwchlwytho neu nodyn llais.

Gall athrawon ddangos Padlet yr ysgol bartner i'r dosbarth, ganalluogi disgyblion i gyfnewid gwaith, rhannu syniadau a dysgu gan ei gilydd.

Twristiaeth

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Dysgu am sut gall twristiaeth ddod â buddion a heriau i gymunedau.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn trafod sut gall lleoedd groesawu ymwelwyr wrth warchod eu diwylliant a'u hamgylchedd.

Dechrau Arni

Gofynnwch i'r disgyblion: "Pa leoedd sy'n bwysig i'r bobl sy'n byw yno?" Enwch neu tynnwch lun lle (cartref, pentref, llwybr, traeth, cae, siop, ysgol).

Cwestiwn dilynol (ar lafar):
"Beth allai newid yn y lle hwnnw pan fydd llawer o ymwelwyr yn cyrraedd?"

Dilyniant

- B4: Enwch neu tynnwch lun un lle pwysig B5: Dywedwch un ffordd y gall ymwelwyr ei newid
- B6: Eglurwch pam y dylai'r bobl sy'n byw yno gael lleisio'u barn

Gweithgaredd 1

Gan ddefnyddio'r cyflwyniad, mae'r athro yn egluro sut mae twristiaeth yn helpu pobl deimlo'n ddiogel, mynegi hunaniaeth, a pherthyn mewn cymunedau yng Nghymru a Lesotho.

Gweithgaredd 2

Tasg:
Mae'r athro'n darllen: "Mae twristiaeth yn dod â swyddi."

Mae disgyblion yn gorffen y frawddeg: "Ond gallai achosi problemau os..."

Gweithgaredd 3

Tasg:
Datganiad: Cyn annibyniaeth, pobl eraill oedd yn gwneud y rheolau. Ar ôl annibyniaeth, mae pobl yn penderfynu drostynt eu hunain.

Tasg i ddisgyblion: Cwblhewch mewn grwpiau: "Mae annibyniaeth yn newid..." Dewiswch un: pwy sy'n penderfynu/lleisiau pwy sy'n cael eu clywed/sut mae pobl yn teimlo

Dilyniant
B4: Rhannwch un syniad gyda phartner.
B5: Ysgrifennwch un frawddeg.
B6: Ysgrifennwch frawddegau cyn ac ar ôl.

Twristiaeth

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Dysgu am sut gall twristiaeth ddod â buddion a heriau i gymunedau.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn trafod sut gall lleoedd groesawu ymwelwyr wrth warchod eu diwylliant a'u hamgylchedd.

Gweithgaredd 4

Tasg:
Dyluniwch arwydd y byddai ymwelwyr yn ei weld yn dangos beth sy'n bwysig i'r gymuned. Beth maen nhw'n ei ddylunio

- Siâp arwydd
- Cynhwyswch: un rheol neu neges (e.e. "Parchwch ein tir") ac un llun neu symbol

Dilyniant

- B4: Tynnwch lun un symbol
- B5: Ychwanegwch neges fer
- B6: Esboniwch ar gyfer pwy mae'r arwydd a pham

Adnodd 7, tud. 24

Cyfarfod Llawn Bychan Meddwl am y Dyfodol

"Os bydd twristiaeth yn parhau fel hyn, beth allai ddigwydd i gymunedau lleol yn y dyfodol?"

Dilyniant

- B4: un syniad (da neu ddrwg)
- B5: esboniwch sut mae'n effeithio ar bobl
- B6: cysylltwch â dewis, llais, neu degwch

Cerdyn Gadael

"Mae twristiaeth yn deg pan fo..."

- B4: un gair
- B5: un frawddeg fyr
- B6: un frawddeg yn sôn am bobl neu le

Padlet

Padlet ar y cyd rhwng eich ysgol a dosbarth partner yn Lesotho. Defnyddiwch y **DDOLEN** i gael mynediad i'n padlet ac uwchlwytho lluniadau gyda neu heb gapsiwn byr neu fyfyrdod uwchlwytho neu nodyn llais.

Gall athrawon ddangos Padlet yr ysgol bartner i'r dosbarth, ganalluogi disgyblion i gyfnewid gwaith, rhannu syniadau a dysgu gan ei gilydd.

Bywyd gwledig

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Archwilio sut brofiad yw bywyd bob dydd yng nghefn gwlad Cymru a Lesotho, a sut mae gwaith, traddodiad a chymuned yn llunio bywydau pobl.

Cyd-destun

Yng Nghymru, roedd teuluoedd yn gweithio ar ffermydd bychan ac yn wynebu newidiadau mawr yn ystod diwydiannu. Yn Lesotho, mae bechgyn yn bugeilio da byw o oedran ifanc, gan chwarae rhan bwysig yn yr economi ond yn methu'r ysgol yn aml.

Dechrau Arni

Tasg:
Cyflwyno cynefin fel y lleoedd, y gwaith, y tir a'r arferion sy'n llunio pwy ydym ni. Ysgogiad:"Beth mae bywyd gwledig yn ei roi i bobl?"

Disgyblion:

- Meddyliwch am un peth mae lleoedd gwledig yn ei ddarparu (e.e. bwyd, gwaith, sgiliau, cymuned, tir).
- Darllenwch yn uchel gyda phartner.
- Mae'r athro'n cofnodi 4-5 gair ar y bwrdd.

Gweithgaredd 1

Gan ddefnyddio'r cyflwyniad, mae'r athro'n esbonio sut mae bywyd gwledig yn helpu pobl i deimlo'n ddiogel, mynegi hunaniaeth, a pherthyn yng Nghymru a Lesotho.

Gweithgaredd 2

Hunaniaetho'r testun:

- Un dasg ddyddiol
- Un sgil sydd ei hangen
- Un cyfrifoldeb

Gallwch dynnu llun a/neu ysgrifennu i ddangos eich syniadau.

Dilyniant

- Blwyddyn 4: Paru llun â thasg ddyddiol (tynnu llun neu label).
- Blwyddyn 5: Dewiswch un dasg ac esboniwch pam ei bod yn ymddangos fel yr un anoddaf.
- Blwyddyn 6: Esboniwch sut mae gwaith o ddydd i ddydd yn helpu i gefnogi teulu neu gymuned (llun + brawddeg).

Gweithgaredd 3

Darllenwch bob datganiadbywydgwledig. Ticiwch un:
□ Gofynnir i bobl
□ Mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ar eu rhan

(Dewisol) Ticiwch un gair:
gofyn / gwrando / dewis / rheolau

Dilyniant
B4: Ticiwch + dywedwch y gair
B5: Ticiwch + dywedwch pam
B6: Ticiwch + esboniwch un dewis

Adnodd 8, tud. 27.

Bywyd Gwledig

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Archwilio sut brofiad yw bywyd bob dydd yng nghefn gwlad Cymru a Lesotho, a sut mae gwaith, traddodiad a chymuned yn llunio bywydau pobl.

Cyd-destun

Yng Nghymru, roedd teuluoedd yn gweithio ar ffermydd bychan ac yn wynebu newidiadau mawr yn ystod diwydiannu. Yn Lesotho, mae bechgyn yn bugeilio da byw o oedran ifanc, gan chwarae rhan bwysig yn yr economi ond yn methu'r ysgol yn aml.

Gweithgaredd 4

Tasg

Cylch syml wedi'i rannu'n adrannau. Mae disgyblion yn ychwanegu lluniau, geiriau neu symbolau.

Mae disgyblion yn tynnu llun neu'n ysgrifennu un syniad ym mhob adran yn dangos:

- pwy sy'n gwneud penderfyniadau
- pwy sy'n cael eu cynnwys
- beth sy'n helpu pobl deimlo eu bod yn perthyn

Dilyniant

- B4: Tynnwch lun pobl + un penderfyniad
- B5: Tynnwch lun + labelwch ("Mae hyn dangos...")
- Y•B6: Ychwanegwch un frawddeg: "Mae hyn yn helpu pobl deimlo fel eu bod yn perthyn oherwydd..."

Adnodd 6, tud.23

Cyfarfod Llawn Bach Meddwl am y Dyfodol

Sut fyddai twristiaeth yn edrych pe bai cymunedau lleol yn rheoli penderfyniadau, nid dim ond buddion?

Cerdyn Gadael

Dewiswch ateb i'w roi ar gerdyn gadael. Roedd y wers hon yn sôn am:

□ Helpu pobl
□ Cydweithio
□ Gwneud penderfyniadau

Padlet

Padlet ar y cyd rhwng eich ysgol a dosbarth partner yn Lesotho. Defnyddiwch y **DDOLEN** i gael mynediad i'n padlet ac uwchlwytho lluniadau gyda neu heb gapsiwn byr neu fyfyrdod uwchlwytho neu nodyn llais.

Gall athrawon ddangos Padlet yr ysgol bartner i'r dosbarth, gan alluogi disgyblion i gyfnewid gwaith, rhannu syniadau a dysgu gan ei gilydd.

Cardiau Senario

Argraffwch y cardiau fflach ac mae'r disgyblion yn dangos A neu B i ddangos pa opsiwn y maent yn meddwl yw'r un mwyaf teg.





Senarios

Adnodd 2

Disgybl newydd	A: Mae'r dosbarth yn dysgu sut i ddweud enw'r disgybl yn gywir ac yn defnyddio geiriau syml maen nhw'n eu deall. B: Mae’r dosbarth yn parhau i siarad yn gyflym mewn un iaith ac yn anwybyddu’r disgybl.
Arwyddion Ysgol	A: Mae ieithoedd yn cael eu hysgrifennu mewn un iaith fel bod pawb yn deall. Arwyddion Ysgol B: Mae arwyddion mewn un iaith yn unig, hyd yn oed os na all teuluoedd eu darllen.
Gwaith grŵp	A: Mae ieithoedd yn cael eu hysgrifennu mewn un iaith fel bod pawb yn deall. Gwaith Grŵp B: Mae arwyddion mewn un iaith yn unig, hyd yn oed os na all teuluoedd eu darllen.
Cyfarfod cymunedol	A: Gall pobl rannu syniadau yn eu mamiaith neu gyda chefnogaeth. B: Dim ond un iaith sy’n cael ei chaniatáu, felly nid yw rhai pobl yn gallu lleisio eu barn.
Adrodd stori	A: Adrodd storiMae gwahanol ieithoedd a straeon yn cael eu croesawu a'u dathlu. B: Mae un ffordd o siarad yn cael ei ystyried yn gywir neu’n bwysig.

Annibyniaeth

Mwy o debygrwydd na gwahaniaethaut

1. Mae pobl yn gwneud eu cyfreithiau eu hunain.

2. Mae gwlad arall yngwneud y prif benderfyniadau.

3. Mae pobl yn dewis eu harweinwyr eu hunain.

4. Mae penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud yn rhywle arall.

5. Mae gan y wlad ei fflag a'i dathliadau cenedlaethol ei hun.

6. Mae, arian, tir, neu adnoddau yn cael eu rheoli gan eraill.

7. Gall pobl bleidleisio a chael lleisio barn ynghylch sut caiff y wlad ei rhedeg.

8. Mae rheolau yn cael eu penderfynu heb wrando ar bobl leol.

9. Mae ysgolion yn dysgu hanes ac iaith y wlad.

10. Mae'r llywodraeth yn dibynnu ar lywodraeth arall i benderfynu ar reolau allweddol.

Cylch Croeso

Tynnwch lun y gwledydd neu'r baneri o'ch dosbarth. Ychwanegwch y gair croeso yn yr ieithoedd y mae pobl yn eu siarad.

Croeso

Senario

Adnodd 5

Mae cymuned eisiau pennu rheolau ar gyfer eu hardal eu hunain.	A: Pobl leol yn cyfarfod ac yn penderfynu rheolau gyda'i gilydd. B: Mae gwlad yn penderfynu'r rheolau ar eu rhan.
Mae gwlad angen arweinydd newydd.	A: Mae pobl yn pleidleisio i ddewis eu harweinydd. B: Mae arweinydd yn cael ei ddewis gan rywun y tu allan i'r wlad.
Cymuned sydd eisiau penderfynu sut caiff eu tir ei ddefnyddio.	A: Mae pobl leol yn penderfynu sut ddylai'r tir gael ei ddefnyddio. B: Mae penderfyniadau'n cael eu gwneud heb ofyn i bobl leol.
Mae angen gwneud penderfyniadau mawr am ysgolion ac ysbytai.	A: Mae'r wlad yn gwneud ei phenderfyniadau ei hun. B: Mae llywodraeth arall yn gwneud y penderfyniadau.
Mae gwlad yn dymuno dangos ei hunaniaeth.	A: Maent yn dewis eu fflag a'u dathliadau eu hunain. B: Mae gwlad arall yn dewis y rhain ar eu rhan.

TasgAdfyfyrio Gweledol

Disgyblion yn ychwanegu, geiriau, lluniau, neu symbol



Twristiaeth

BYWYD GWLEDIG

Darllenwch bob datganiad am fywyd gwledig. ticiwch un bocs i ddangos beth sy'n digwydd

Sgìl	Gofyn i bobl	Penderfyniadau'n cael eu gwneud dros bobl
Mae amserlen bws newydd yn cael ei chynllunio heb ofyn i'r bobl sy'n byw yn y pentref.		
Mae ffermwyr yn cael eu holi pryd y dylai cyfarfodydd gael eu cynnal felly y gallant fynd iddyn nhw ar ôl gwaith.		
Mae clinig iechyd yn cau, ac mae'n rhaid i deuluoedd deithio'n bell i'r dref nesaf.		
Mae pentrefwyr yn rhannu eu syniadau cyn i ffordd newydd gael ei hadeiladu.		
Mae'n rhaid i blant deithio'n bell i'r ysgol oherwydd does dim trafnidiaeth leol		
Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn helpu i benderfynu sut mae tir yn cael ei ddefnyddio.		

DOLENNI PELLACH

Podlediadau

Iaith Basotho a'r Iaith Gymraeg

Annibyniaeth Lesotho

Annibyniaeth Cymru

Iaith Basotho

Iaith Gymraeg

CYSYLLTWCH Â NI

Dolen Cymru

Dysgwch ragor am y bartneriaeth Cymru-Lesotho:

https://www.dolencymru.org

swyddfa@dolencymru.org

Taith

Dysgwch fwy am gyfleoedd dysgu rhyngwladol:

https://www.taith.wales

Dolen LESOTHO CYMRU

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Taith

Dolen LESOTHO CYMRU

Taith

Dysguar y Cyd, Gwellaar y Cyd

Arolwg adborth

Mae'r adnodd hwn yn cael ei ddatblygu drwy brofiadau cyffredin. Sganiwch i helpu i lywio'r rhifyn nesaf.